Hawdd ei Ddeall

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

## Canllaw Hawdd ei Ddeall i ddysgwyr

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cod Ymgysylltu â Dysgwyr: Canllaw i Ddysgwyr.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Medr**. I ddarganfod mwy ewch i:

**Gwefan:** www.medr.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

# Cynnwys

**Am y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr** ........ 4

**Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan** ........ 6

**Beth mae'n rhaid i ysgolion, colegau a darparwyr dysgu cymunedol oedolion ei wneud** ........ 7

**Sut fyddwn ni'n gwirio** ........ 9

**Gwerthoedd pwysig** ........ 11

**Penderfyniadau rydych chi'n gallu helpu i'w gwneud** ........ 13

# Am y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

**Medr** ydyn ni. Ein gwaith ni ydy edrych ar rai lleoliadau addysg yng Nghymru. Mae'r rhain yn llefydd lle rydych chi'n dysgu.




Fe wnaethon ni'r **Cod Ymgysylltu â Dysgwyr** yma. Rhaid i'ch ysgol, coleg neu ddarparwr dysgu cymunedol oedolion ddilyn y Cod.



Mae'r Cod yn gwneud yn siŵr eich bod chi, y dysgwr, yn cael eich clywed.



**Mae'n meddwl eich bod chi yn gallu:**

- Cymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Mae beth rydych chi'n feddwl yn cael ei glywed.
- Rhannu eich meddyliau am eich dysgu.

**Fe fydd hyn yn eich helpu i:**




- Rhannu beth rydych chi'n feddwl  yn hawdd.



- Bod yn rhan o wneud newidiadau a gwella pethau.



- Darganfod beth sydd wedi digwydd oherwydd beth rydych chi'n feddwl.



Fe ddylai'r Cod helpu i wneud dysgu yn well i chi.

# Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan

Mae yna lawer o ffyrdd rydych chi'n gallu cymryd rhan. Rydych chi'n gallu:




- Llenwi arolygon.



- Siarad â'ch athro neu diwtor.



- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd.



- Ymuno â chyngor dysgwyr neu undeb myfyrwyr. Mae cynghorau dysgwyr ac undebau myfyrwyr yn grwpiau o ddysgwyr sy'n rhannu syniadau ac yn cynrychioli dysgwyr.

# Beth mae'n rhaid i ysgolion, colegau a darparwyr dysgu cymunedol oedolion ei wneud

Mae'r Cod ar gyfer:



- Colegau



- Prifysgolion



- Darparwyr hyfforddiant ar gyfer Prentisiaethau. Dyma lle rydych chi'n dysgu wrth wneud swydd.



- Dysgu oedolion a chymunedol




- Chweched dosbarth ysgol.




Fel rhan o'r Cod, rhaid i'ch ysgol, coleg neu ddarparwr dysgu cymunedol oedolion:



- Gweithio gyda dysgwyr a grwpiau dysgwyr.



- Gwneud ymrwymiad ymgysylltu â dysgwr. Mae hyn yn dweud sut fydd dysgwyr yn cymryd rhan.



- Gwneud yn siŵr eich bod chi'n rhan o benderfyniadau.



- Dangos beth sydd wedi newid oherwydd bod dysgwyr yn rhannu beth maen nhw'n feddwl.

# Sut fyddwn ni'n gwirio

Fe fyddwn ni'n edrych I weld bod eich darparwr addysg yn dilyn y Cod. Fe fyddwn ni'n:



- Edrych ar eich ymrwymiad ymgysylltu â dysgwr.



- Edrych ar sut mae wedi gwneud gwahaniaeth.



- Gofyn i ddysgwyr beth maen nhw'n feddwl.

Estyn

- Gofyn i sefydliadau fel Estyn pa mor dda maen nhw'n meddwl bod ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei wneud.



Rydyn ni'n gallu dweud wrth eich ysgol, coleg neu ddarparwr addysg oedolion i wneud newidiadau.



Rydyn ni'n gallu eu cefnogi i wella.



Rydyn ni'n gallu rhannu syniadau am y pethau sy'n cael eu gwneud sy'n gweithio'n dda.

# Gwerthoedd pwysig

Mae’r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr wedi ei seilio ar werthoedd pwysig. Dyma rai o’r gwerthoedd yma:



- Fe ddylech chi fod yn rhan o benderfyniadau.



- Rydych chi’n teimlo eich bod chi’n cael eich gwerthfawrogi a’ch clywed.



- Mae pawb wedi’u cynnwys.




- Rydych chi'n gallu defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.



- Fe ddylech chi fod yn rhan o wneud newidiadau a gwella pethau.

# Penderfyniadau rydych chi’n gallu helpu i’w gwneud



Rydych chi’n gallu helpu i benderfynu pa fath o gyrsiau sy’n cael eu cynnig.



Rydych chi’n gallu  helpu i benderfynu pryd a ble mae cyrsiau’n digwydd.



Rydych chi’n gallu helpu i benderfynu pa offer mae dysgwyr eu hangen.



Rydych chi'n gallu rhannu beth rydych chi'n feddwl am bethau fel cod gwisg, defnyddio ffôn, neu lle mae fepio'n cael ei ganiatau.



Rydych chi'n gallu rhannu beth rydych chi'n feddwl am newidiadau i sesiynau dysgu.



Rydych chi'n cael dweud eich dweud am lesiant neu sut i roi adborth.



Mae yna lawer o bethau eraill rydych chi'n gallu dweud eich dweud arnyn nhw.



Mae’r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn eich helpu i wella eich dysgu.



Mae hefyd yn helpu dysgwyr i ddweud eu dweud a gwneud penderfyniadau ar draws Cymru.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247